# ADRODDIAD GAN BENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

# YMGYNGHORIAD O DAN ADRAN 42 DEDDF CYNLLUNIO 2008

# FFERM WYNT COEDWIG DYFNANT (POWYS)

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad yn codi o dderbyn rhybudd oddi wrth Scottish Power Renewables (SPR) o'i fwriad i gyflwyno ymgynghoriad o dan Adran 42 Deddf Cynllunio 2008 mewn perthynas â datblygiad tyrbinau gwynt yng Nghoedwig Dyfnant, Powys. Mae'r Cyngor yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar y datganiad amgylcheddol drafft a manylion eraill y cynnig fel Awdurdod Lleol cyfagos.

1.2 Oherwydd bod amser yn brin i gyflwyno ymateb ar y cyflwyniad hwn a chan nad yw ymatebion o'r fath yn swyddogaeth ddirprwyedig, mae'n rhaid codi'r mater mewn Pwyllgor cyn gynted â phosibl er mwyn gofyn am benderfyniad i ganiatau Swyddogion i ymateb ar ran y Cyngor.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae Scottish Power Renewables yn bwriadu cyflwyno cais i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 37 Deddf Cynllunio 2008 am Orchymyn Caniatáu Datblygiad i godi 32 o Dyrbinau Gwynt a datblygiadau atodol.

2.2 Mae'r cais arfaethedig ar gyfer adeiladu a gweithredu fferm wynt ar y lan a fydd yn cael ei adnabod fel Fferm Wynt Coedwig Dyfnant (y Prosiect arfaethedig) ac yn cynnwys 32 o dyrbinau gwynt a allai gynhyrchu hyd at 116 megawat o drydan ar ôl eu gosod. Gan y byddai'r Prosiect arfaethedig yn gallu cynhyrchu dros 50 megawat ar ôl codi'r tyrbinau, mae'n cael ei gyfrif yn Brosiect Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol sy'n cael ei awdurdodi drwy ganiatáu Gorchymyn Caniatáu Datblygu. Byddai'r Prosiect arfaethedig yng Nghoedwig Dyfnant, tua phum cilometr i'r de o Lyn Efyrnwy ac i'r gogledd o Langadfan ym Mhowys, Cymru.

2.3 Mae'r gofynion ynghylch cyflwyno ceisiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol am Orchmynion Caniatáu Datblygu yn cael eu dangos yn y Ddeddf Cynllunio, yn y Rheoliadau cysylltiedig ac yn y canllawiau dilynol a gyhoeddir gan yr Arolygaeth Cynllunio, sy'n gyfrifol am weinyddu'r broses ymgeisio. O dan adran 42 y Ddeddf Cynllunio, mae gofyn i SPR gynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda rhestr swyddogol o gyrff, awdurdodau lleol a'r bobl hynny gyda diddordeb

yn y tir neu y gallai'r prosiect effeithio ar eu heiddo. Mae SPR yn bwriadu dechrau ar ei ymgynghoriad cyn cais, ffurfiol, gyda'r ymgynghoreion hyn a gyda phartïon eraill â diddordeb ar 25 Ionawr 2013.

2.4 Mae gofynion pellach ynghylch ymgynghori yn cael eu gosod oherwydd bod y Prosiect arfaethedig yn cael ei ystyried yn 'ddatblygiad Asesiad Effeithiau Amgylcheddol' at ddibenion Rheoliadau Seilwaith Cynllunio (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (y Rheoliadau Asesiad Effeithiau Amgylcheddol), ac felly bydd angen Asesiad Effeithiau Amgylcheddol ar ei gyfer. Felly bydd Datganiad Amgylcheddol i ganlyn y cais am Orchymyn Caniatau Datblygu. Mae SPR wedi cynhyrchu adroddiad ar Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, sef y deunydd ymgynghori cychwynnol sy'n crynhoi canlyniadau'r gwaith asesu amgylcheddol a wnaed hyd yn hyn.

2.5 Mae Rheoliad 11 o'r Rheoliadau Asesiad Effeithiau Amgylcheddol yn gofyn fod y rhai yr ymgynghorir â nhw yn derbyn copi o'r rhybudd ffurfiol yn cyhoeddi'r cais arfaethedig, sy'n cael ei adnabod fel y Rhybudd Adran 48, sydd wedi'i gyhoeddi.

2.6 Felly, ymgynghorwyd â Chyngor Sir Ddinbych fel Awdurdod Lleol cyfagos ac mae wedi cael hyd at 15 Mawrth i gyflwyno ymateb.

2.7 Mae copi o'r ymgynghoriad Adran 42 llawn ar gael i'r Aelodau ei weld yng Nghaledfryn, Dinbych neu mae ar gael ar gais.

## 3 Y CYNNIG

3.1 Y prif gynnig yw codi 32 o dyrbinau gwynt hyd at 145 metr o uchder yn ardal Coedwig Dyfnant. Mae'r cynllun ar ddiwedd yr adroddiad yn dangos y cynigion yn fras. Bydd hefyd rhywfaint o ddatblygu atodol ychwanegol megis mannau caled i graeniau, is-orsaf, adeilad rheoli ayb.

3.2 Lleoliad y datblygiad yw Coedwig Dyfnant yn Sir Powys tua 5 cilometr i'r de o Lyn Efyrnwy ac i'r gogledd o Langadfan. Mae'r safle ychydig i'r dwyrain o ffin Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r Trallwng tua 18 i 20 cilometr i'r dwyrain.

3.3 Mae'r safle hefyd o fewn Ardal Chwilio Strategol B fel y cyfeirir ati ym Mholisi Cynllunio Cymru 2011 a TAN 8 2005.

## 4 ASESIAD

4.1 Mae'r safle wedi'i leoli beth pellter o'r ffin â Chyngor Sir Ddinbych.

4.2 Mae'r safle tua 20 i 25 cilometr i'r dde o Gorwen.

4.3 Mae'r ymgeiswyr wedi nodi y bydd asesiad Effeithiau Amgylcheddol gyda'r cais ac mae'n rhoi syniad drafft cychwynnol o'r pynciau y bydd angen eu

hasesu.

4.4 Mae'n annhebyg y bydd y datblygiad yn effeithio’n uniongyrchol ar Sir Ddinbych, fodd bynnag mae’n debyg y bydd y tyrbinau'n weladwy o fannau o fewn finiau'r Sir. Ystyrir na fydd yr effaith weledol ar Gefn Gwlad Sir Ddinbych yn arwyddocaol.

## 5 ARGYMHELLIAD

5.1 Dirprwyo’r ymateb terfynol ar Ymgynghoriad Adran 42 i Swyddogion, mewn ymgynghoriad â’r aelodau lleol (Corwen a Llandrillo).